# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## CSO(2)-07-06 (p7)

### Dyddiad: 3 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Rheol Sefydlog 23 – Cwynion

**1. Diben**

1.1 Mae’r papur yma’n ystyried goblygiadau Mesur Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheol Sefydlog 23.

**2. Cefndir**

Deddf Llywodraeth Cymru 1998

2.1 Mae adran 70(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Rheolau Sefydlog gynnwys darpariaeth ar gyfer sefydlu gweithdrefnau i ymchwilio i gwynion am weithredoedd neu fethiannau ar ran y Cynulliad a chyhoeddi manylion y gweithdrefnau hynny. Rheol Sefydlog 23 sy’n cyflawni’r rhwymedigaeth yma.

Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005

2.2 Sefydlodd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (o 1 Ebrill 2006 ymlaen). Mae nodyn briffio byr ar Ddeddf 2005 ar gael yn Atodiad 1.

2.3 Yn sgil adroddiad a baratowyd gan y Pwyllgor Busnes, cytunodd y Cyfarfod Llawn ar 9 Mai 2006 y dylai Rheol Sefydlog 23 gael ei diwygio:

i wneud darpariaeth drosiannol ar gyfer ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus sy’n ymwneud dim ond â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 ac a fu’n destun cwyn briodol.

i gyflawni’r rhwymedigaeth statudol o dan adran 24(3) o Ddeddf 2005, i wneud darpariaeth benodol yn y Rheolau Sefydlog mewn perthynas ag adroddiadau arbennig gan yr Ombwdsmon sy’n ymwneud â’r Cynulliad.

2.4 Wnaeth y newidiadau i Reol Sefydlog 23 ddim cynnwys darpariaethau ychwanegol a allai gael eu cynnwys i ymdrin ag ystyried adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon ac ystyried neu ymdrin ag adroddiadau ar ymchwiliadau unigol.

Pwyllgor ar y Papur Gwyn - Trefn Lywodraethu Well i Gymru

2.5 Dywedodd y Pwyllgor ar y Papur Gwyn – Trefn Lywodraethu Well i Gymru y canlynol am Ombwdsmyn

Camweinyddu

134 Mae cysylltiad agos yn y Deyrnas Unedig rhwng cyfundrefn yr Ombwdsmyn â Deddfwrfeydd. Teitl priodol Ombwdsmon y Deyrnas Unedig yw’r "Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth"; mae adran 91 o Ddeddf yr Alban, yn nodi mai Senedd yr Alban sydd i wneud darpariaeth ar gyfer cwynion ynglyn â chamweinyddu; ac yng Ngogledd Iwerddon, mae Comisiynydd Cwynion Gogledd Iwerddon yn adrodd yn flynyddol i’r Cynulliad. Y rheswm am hyn yw bod Ombwdsmyn a chynrychiolwyr etholedig yn rhannu cyfrifoldeb arbennig dros warchod y cyhoedd rhag camweinyddiaeth. Dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, penodir yr Ombwdsmon gan Ei Mawrhydi ar argymhelliad yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ymgynghori â’r Cynulliad. Mae adroddiadau’r Ombwdsmon yn cael eu cyflwyno (ymhlith eraill) i’r Prif Weinidog. Dywed y Papur Gwyn y bydd yr Ombwdsmon yn cael ei benodi yn y dyfodol gan Ei Mawrhydi ar argymhelliad y Cynulliad gan fod y Llywodraeth yn credu y dylai’r penodiad gael ei weld "i fod yn gwbl annibynnol o unrhyw awdurdod gweithredol yng Nghymru".[266] Rydym yn croesawu hyn, ond credwn yn ogystal y dylai fod yn ofynnol iddo ef neu hi adrodd i’r Cynulliad yn flynyddol hefyd, ac y dylai fod â hawl i wneud

adroddiadau arbennig o bryd i'w gilydd. Rydym yn argymell bod y

Mesur yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i ffurfio cysylltiadau agosach

rhwng yr Ombwdsmon a'r Cynulliad.

[266] para 2.19

Mesur Llywodraeth Cymru

2.6 Nid yw Mesur Llywodraeth Cymru'n gwneud darpariaeth i gyfateb i adran 70(5) o Ddeddf 1998.

2.7 Mae cymal 123 yn pennu bod yr Ombwdsmon yn gorff sy'n gallu codi ei gyllid yn uniongyrchol o'r Gronfa Gyfunol, sy'n sicrhau ei fod yn annibynnol, o safbwynt ariannol, ar Lywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Cynulliad Cenedlaethol.

2.8 Mae paragraffau 66 i 87 o Atodlen 10 i'r Mesur yn gwneud darpariaethau trosiannol a chanlyniadol i Ddeddf 2005. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys:

gosod "Welsh Ministers", "Welsh Assembly Government", "National Assembly for Wales Commission" etc yn lle "Assembly" fel y bo'n briodol, gan adlewyrchu symud oddi wrth statws y Cynulliad fel corff corfforaethol;

pennu gweithdrefnau cadarnhaol at is-ddeddfwriaeth ar gyfer gwneud Gorchmynion gan Weinidogion Cymru sy'n cynnig diwygio adran 25 (Ymgynghori a chydweithredu ag ombwdsmyn eraill) ac Atodlenni 2 (Materion wedi'u Heithrio) a 3 (Awdurdodau rhestredig) o Ddeddf 2005;

bod penodiadau i swydd yr Ombwdsmon (neu i swydd Ombwdsmon Dros Dro) yn cael eu gwneud ar enwebiad y Cynulliad;

argymhelliad y dylai fod angen i'r Cynulliad basio cynnig, gyda 40 o leiaf o Aelodau'n pleidleisio o'i blaid, er mwyn diswyddo person o swydd yr Ombwdsmon;

gofyniad bod rhaid i'r Ombwdsmon gyflwyno amcangyfrif o incwm a chostau angenrheidiol i Bwyllgor wedi'i enwi a bennir yn y Rheolau Sefydlog.

2.9 Cafodd Atodlen 10 ei hystyried gan Bwyllgor Mesur Llywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2006. Cyflwynwyd gwelliant i wneud yr Ombwdsmon yn un o swyddogion y Cynulliad. Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth y Cynulliad fod annibyniaeth rôl yr Ombwdsmon yn glir, a'i fod yn benodiad gan y Goron sy'n annibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad. Tynnwyd y gwelliant yn ôl. Cynigiwyd gwelliannau hefyd mewn perthynas ag adroddiadau gan yr Ombwdsmon, ond chawson nhw mo'u cefnogi gan Lywodraeth y Cynulliad.

Ty'r Cyffredin / Senedd yr Alban

2.10 Yn Nhy’r Cyffredin, mae’r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu yn un o swyddogion y Ty ac mae ganddo berthynas arbennig â’r Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus. O dan adran 91 o Ddeddf yr Alban 1998, mae’n rhaid i Senedd yr Alban wneud darpariaeth ar gyfer ymchwilio i gwynion a wneir i Aelodau Senedd yr Alban am gamweinyddu yng Ngweithrediaeth yr Alban (a chyrff eraill). O dan y Mesur, nid yw’r rôl yma’n cael ei rhoi i’r Cynulliad a’i Aelodau (sef derbyn cwynion ac adroddiadau’r Ombwdsmon) mewn perthynas â chwynion am gamweinyddu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## 3. Ystyriaeth

3.1 Mae Atodiad 2 yn dangos Rheol Sefydlog 23 fel y mae ar hyn o bryd ac agweddau y mae angen eu newid. Yn bennaf, mae’r newidiadau’n codi o ganlyniad i symud y Cynulliad oddi wrth ei statws corfforaethol; bydd y Rheol Sefydlog ddiwygiedig yn ymdrin yn y bôn â’r agweddau hynny sy’n rhwymedigaethau statudol yn sgil Deddf 2005 a’r berthynas y mae’r Aelodau’n credu y dylai’r Ombwdsmon ei chael â’r Cynulliad e.e. sut y dylai’r Ombwdsmon ymwneud â’r pwyllgorau. I ddrafftio’r Rheol Sefydlog ddiwygiedig fe fydd angen ystyriaeth ofalus a manwl, ac felly ar hyn o bryd rydym yn gofyn i’r Aelodau bwyso a mesur yr egwyddorion sydd i’w dilyn.

C1. Sut dylai’r Ombwdsmon ymwneud â’r Cynulliad ac ydy hi’n briodol adlewyrchu mecanweithiau priodol yn y Rheolau Sefydlog? Er enghraifft, pa rôl y dylai’r pwyllgorau ei chwarae wrth bwyso a mesur adroddiadau’r Ombwdsmon? A ddylid cael pwyllgor ar wahân ynteu pwyllgor wedi’i enwebu (e.e. y Pwyllgor Archwilio) i fonitro gwaith yr Ombwdsmon?

3.2 Mae Deddf 2005 yn cael ei diwygio gan y Mesur fel y bydd penodiadau i swydd yr Ombwdsmon yn cael eu gwneud ar enwebiad y Cynulliad (gweler paragraff 2.8(c) a pharagraff 2.8(d)). Nid ydym o’r farn bod angen cynnwys y weithdrefn ar gyfer ei enwebu yn y Rheolau Sefydlog.

C2. Ydy’r Aelodau’n cytuno?

3.3 Bydd y gofyniad bod rhaid i’r Ombwdsmon gyflwyno amcangyfrifon o incwm a chostau angenrheidiol i Bwyllgor wedi’i enwi, a bennir yn y Rheolau Sefydlog (gweler paragraff 2.8(e)) yn cael ei ystyried pan fydd yr Aelodau wrthi’n ystyried materion cyllid a strwythur y pwyllgorau.

3.4 Mae rhai o’r materion mwyaf penodol i’w hystyried wedi’u nodi yn Atodiad 2 a gofynnir i’r Aelodau ystyried y rheiny.

## 4. Camau i’w cymryd

4.1 Gwahoddir yr Aelodau

i ystyried cwestiynau 1 a 2 uchod

i ystyried y cwestiynau yn Atodiad 2

Uned Gweithdrefnau Mesur Llywodraeth Cymru

Mehefin 2006